Hysbysiad o dan Amod VQCov1.1(b): 27 Ebrill 2021

At: Swyddogion Cyfrifol yr holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Galwedigaethol

Mae Cymwysterau Cymru yn rhoi rhybudd o dan Amod VQCov1.1(b) y bydd Fframwaith VQCov yn cael ei ddatgymhwyso mewn perthynas â'r holl VQs[1] fel y nodir isod.

Mae'r hysbysiad hwn hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed a wnaed o dan Amod VQCov1.2(c). Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r darpariaethau trosiannol ac arbed hyn o dan Amod VQCov1.3.

Datgymhwyso'r Fframwaith VQCov

Bydd amodau VQCov1 i VQCov11 (ac eithrio Amod VQCov1.3) yn cael eu datgymhwyso mewn perthynas â phob VQ o 27 Ebrill 2021, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol ac arbed a nodir isod.

Bydd Amod VQCov1.3 yn parhau mewn grym i hwyluso cydymffurfiad â'r darpariaethau trosiannol ac arbed hynny.

Darpariaethau trosiannol ac arbed

Rhaid i gorff dyfarnu barhau i gymhwyso Amodau VQCov1 i VQCov4, VQCov7 a VQCov11 –

(a) mewn perthynas ag unrhyw Ddysgwr sy'n gymwys o dan Amod VQCov2 i dderbyn, ond heb dderbyn ar ddyddiad yr hysbysiad hwn, ganlyniad wedi'i gyfrifo o dan Amod VQCov3 neu VQCov4, a

(b) at ddibenion unrhyw apêl a ddechreuwyd neu a ddaeth i ben ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn yn erbyn canlyniad a roddwyd o dan Fframwaith VQCov, gan gynnwys canlyniad a roddwyd i Ddysgwr o dan (a) uchod.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, nid yw'n ofynnol i gorff dyfarnu roi cyfle i Ddysgwr gymryd asesiad wedi'i Addasu o dan Amod

[1] Mae gan dermau yn yr hysbysiad hwn yr un ystyr ag o dan Amodau VQCov1.4 a VQCov1.8.

VQCov3.1 (b) neu Amod VQCov4.1 (c) lle na all ddarparu canlyniad wedi'i gyfrifo o dan (a) uchod.

Rhaid i gorff dyfarnu gadw'r holl gofnodion o wneud penderfyniadau sy'n ofynnol o dan Amod VQCov8 am 3 blynedd ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, a darparu'r cofnodion hynny i Cymwysterau Cymru ar gais.